# Atodiad 1

## Adolygiadau Ffordd Gwynedd

Hyd yma mae tri Adolygiad Dwys Ffordd Gwynedd wedi ei gyflawni yn Unedau Eiddo Cynnal a Chadw Ymatebol, Eiddo Cynnal a Chadw Cynlluniedig a Chylchol ynghyd â'r Uned Ddigartrefedd. Mae'r adolygiadau yn y tair Uned wedi sicrhau nifer o fuddiannau ac maent wedi eu crynhoi isod.

### Uned Ddigartrefedd

Cwblhawyd yr adolygiad yn yr Uned Ddigartrefedd yn 2011 ac mae'r buddiannau i'r cwsmer wedi rhestru isod:

- Un swyddog yn delio efo'r achos o'r pwynt cyswllt i'r diwedd felly nid yw'r cwsmer yn cael eu cyfeirio o un swyddog i un arall.
- Cwsmer yn llenwi un ffurflen yn unig ac felly yn osgoi gofod ail adrodd yr un wybodaeth dro ar ôl tro.
- Cadw cyswllt efo'r cwsmer trwy'r broses, fel eu bod yn cael eu diweddaru.
- Cynorthwyo cwsmeriaid sydd ddim mewn blaenoriaeth angen drwy gynorthwyo i ddod o hyd i lety yn y sector breifat a rhoi benthyciad i dalu blaendal.
- Trafod mwy hefo Cymdeithasau Tai am argaeledd llety fel bod y cwsmer yn gwybod beth yw'r tebygolrwydd o gael eiddo cymdeithasol yn eu hardal o ddewis.
- Adnabod y math o lety sydd ei angen fwyaf a chanolbwyntio ar gynyddu'r niferoedd o'r math hynny o lety sydd ar gael.
- Cynnig gwasanaeth amgen pan yn briodol er mwyn ymateb i wir anghenion y cwsmer.
- Hyn oll yn arwain at lai o oedi i'r cwsmer a lleihad sylweddol yn y nifer o ddyddiau mae cwsmeriaid yn aros mewn llety dros dro.
- Mae peth pryder ynglŷn â pharhau momentwm yr Adolygiad, yng nghyd-destun casglu gwybodaeth dadansoddi a monitro mesurau. Bydd sylw yn cael ei roi i hyn ar fyrder.

### Uned Eiddo Cynnal a Chadw Ymatebol

Roedd yr Uned yma gyda'r cyntaf i gael eu hadolygu. Mae'r buddiannau a ddaeth yn sgil y gwaith yn cynnwys:

- Gostyngiad sylweddol yn yr amser o dderbyn galwad i gwblhau'r gwaith.
- Drwy weithio efo'r contractwyr mae'r Uned bellach yn cael yr anfonebau i mewn yn amserol (gyda manylion o bryd gwblhawyd y gwaith ar yr anfoneb). Roedd 1047 galwad ar agor diwedd Mawrth 2013 ond erbyn hyn dim ond 90 sydd yn parhau ar agor.
- Tra bo contractwr ar safle maent wedi derbyn cyfarwyddyd i ofyn a oes unrhyw beth arall angen ei wneud. Mân broblemau felly yn cael eu sortio cyn iddynt fynd yn broblemau mawr ac arbediad ar daliadau galw allan.
- Rhyngwyneb awtomatig wedi ei ddatblygu rhwng system Eiddo a system gyllid y Cyngor felly anfonebau yn cael eu prosesu a'u talu ynghynt ac arbed amser gan nad oes angen ail fewnbynnu data mewn sawl lle.
- Roedd yr uned yn gorwario yn gyson yn erbyn y gyllideb cyn yr adolygiad, maent bellach o fewn y gyllideb.

- Maent wedi cyflwyno cynllun peilot 'dyn ar ben ei hun' ers 6 mis sydd
    - Yn debygol o arbed oddeutu £60,000 y flwyddyn (hwn yn cyfrannu at ddod a'r gwariant o fewn rheolaeth, gweler uchod)
    - Yn eu galluogi i ddynodi amser penodol ar gyfer cyflawni'r gwaith a chadw ato.
    - Eisoes yn derbyn canmoliaeth gan y cwsmeriaid.
- Daeth hyn fel cynnyrch o'r newid o'r ffordd o feddwl a fu yn yr Uned gan fod yna drwydded i arbrofi i weld a allwn wella pethau – lle nad oedd yna ynghynt.
- Dechrau gweithredu fframweithiau yn dilyn proses dendro gydag ambell un o'r contractau yn golygu gostyngiad cost o £9 yr awr.
- Yn cadw'r cwsmer yn y darlun ynglŷn â sefyllfa'r alwad e.e. wedi ei dderbyn / pasio i gontractwr / wedi ei gwblhau. (Roedd hyn yn dilyn cais gan gwsmeriaid).
- Boddhad cwsmer bellach yn gyson ar 98% lle gynt doedd dim hyd yn oed gofyn am farn y cwsmer.

**Uned Eiddo Cynnal a Chadw Cynlluniedig a Chylchol**

Cynhaliwyd yr adolygiad yn yr Uned yma eleni ac mae'r buddiannau a adnabuwyd hyd yn hyn yn cynnwys:

- Lleihau'r nifer o ymweliadau i adeiladau ac felly yn tarfu llai ar y defnyddwyr.
- Rhyddhau rhywfaint o amser staff sydd wedi arwain at £20,000 o arbediad staffio.
- Rhyddhau amser staff i ymgymryd â gwaith oedd yn cael ei allanoli i ymgynghorwyr allanol yn y gorffennol, gyda hyn yn debygol o arwain i arbediad £35,000 y flwyddyn.
- Rhyddhau amseri staff i fod yn ymgymryd â gwaith ychwanegol sydd yn lliniaru risgiau Iechyd a Diogelwch. (Maent yn gwirio rhestr asedau tra ar y safle, sef rhywbeth nad oeddent yn ei wneud yn y gorffennol ac oedd ar adegau yn arwain at sefyllfaoedd lle'r oedd asedau newydd wedi eu harchebu ar gyfer y safle, heb eu cynnwys ar y rhestr ganolog , ac felly ddim yn cael eu harchwilio yn unol â'r gofynion statudol.)

**Uned Gefnogol**

Rhai o'r prif gasgliadau'r adolygiad hyd yn hyn:-

1. **Bod gwybodaeth ar bapur yn cael ei basio o un lle i'r llall ac yn cael ei fewnfwydo i sawl cronfa ddata gan sawl aelod staff ar gyfer sawl gwahanol bwrpas**.

   Mae'r uned bellach yn cydweithio hefo'r uned TG i ddatblygu system hunan wasanaeth ar gyfer staff, er mwyn mewnbynnu eu hawliau costau teithio, amserlenni a.y.b. yn uniongyrchol i system electronig yn hytrach na'i gyflwyno ar bapur. Rhagamcanir y bydd y modiwl cyntaf sef costau teithio a'r gallu i dderbyn ein slipiau cyflog yn electronig yn hytrach na ar bapur yn dechrau cael ei rowlio allan mis Chwefror/Mawrth 2016.

2. **Bod yr uned yn gofyn am ddata sydd eisoes ganddynt ac yn gofyn am yr un data sawl gwaith ar ffurf oedd yn gyfleus i'r gweinyddwyr, gyda hyn yn creu mwy o waith nac yr oedd ei angen i'r staff yr oeddent yno i'w cefnogi.**

Daethpwyd ar draws un prif rwystr rhag newid ein trefniadau, sef ansawdd y data yn ein systemau. Mae'r uned wedi bod yn gweithio gyda rheolwyr ar draws y Cyngor i lanhau'r data a bellach mewn sefyllfa lle bont yn gallu dechrau arbrofi gyda'r dulliau newydd o weithredu.

Gosodwyd targed arbedion effeithiolrwydd o £116,000 ar yr uned rhwng 2015-16 a 2016-17. Mae'r rheolwr yn ffyddiog fod yr Adolygiad yn mynd i gyfrannu'n sylweddol i hyn ond yn datgan peth pryder o allu cyflawni'r holl newidiadau sydd yn angenrheidiol o fewn yr amserlen wreiddiol.

**Ffordd Gwynedd Iechyd a Gofal**

Ers Ionawr 2015, mae Tîm Integredig, sydd wedi ei leoli yn Ysbyty Alltwen, wedi bod yn treialu ffordd newydd o weithio. Yn y lle cyntaf mae'r prosiect yn canolbwyntio ar y maes Pobl Hþn ac Anableddau Corfforol.

Erbyn Ebrill 2015, llwyddwyd i brofi fod y ffordd newydd o weithio yn cynnig buddion sylweddol i'r cwsmer, a hynny trwy fod yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri iddynt yn eu bywydau. Sgil effaith hyn yw ein bod hefyd yn gweld cyfleoedd i fod yn gweithio'n fwy effeithlon ym maes gofal ac iechyd.

Mae gwaith yn symud ymlaen ar hyn o bryd gyda staff y ward yn Ysbyty Alltwen ac yn dilyn hynny bydd gweithwyr gofal gogledd Meirionnydd a'r nyrsus cymunedol yn ymuno. Y cam nesaf wedyn fydd ymestyn Ffordd Gwynedd ymhellach i dde Meirionnydd. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo hefyd o ran datblygu a chadarnhau mesurau a threfniadau gweithio cadarn ar gyfer y dyfodol.

Mae'r prosiect yn cyflawni yn unol â'r disgwyl o ran cerrig milltir ond mae'r Aelod Cabinet wedi cynnig her i'r amserlen wreiddiol o fod yn prif ffyrdio Ffordd Gwynedd ar draws y sir. Cynigir diweddariad penodol ar y prosiect o dan brosiect G2 Gweithio'n integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion.